



Alyson Thomas
Prif Weithredwr
Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru ('Llais')

Trwy e-bost: alyson.thomas@llaiscymru.org

29/09/2023

Annwyl Brif Weithredwr

SAFONAU'R GYMRAEG - HYSBYSIAD CYDYMFFURFIO

Yn unol ag adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, atodaf hysbysiad cydymffurfio eich sefydliad.

Mae'r hysbysiad cydymffurfio yn nodi pa safonau o fewn [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 7\) 2018](#) sy'n rhaid i chi gydymffurfio â hwy ac erbyn pryd. Bydd copi o'r hysbysiad yn ymddangos ar fy ngwefan.

Fel y gwyddoch, ymgynghorwyd â chi ar hysbysiad cydymffurfio drafft rhwng 13 Mehefin 2023 a 18 Awst 2023. Amlinellir yn atodiad 1 y newidiadau a wnaed i'r hysbysiad cydymffurfio a roddir yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, a rhai nodiadau ychwanegol i egluro'r gofynion ymhellach.

Daw hysbysiad cydymffurfio i rym o'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad, sef 29 Medi 2023. Mae hysbysiad cydymffurfio yn aros mewn grym oni chaiff, a hyd oni chaiff, ei ddirymu. Bydd gofyniad i chi gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o 1 Ebrill 2024.

Os oes unrhyw newid yn amgylchiadau'r sefydliad o'r diwrnod y daw'r hysbysiad i rym, er enghraifft, os yw'r sefydliad yn dechrau neu'n peidio â chyflenwi gwasanaeth sy'n dod o fewn cwrpas y safonau, dylid rhoi gwybod i'r Comisiynydd yn syth.

Dylid ystyried cynnwys yr hysbysiad cydymffurfio ochr yn ochr â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 drwy glicio ar y ddolen isod: http://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/441/pdfs/wsi_20180441_mi.pdf er mwyn dod o hyd i ddehongliadau pellach o'r safonau y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â hwy. Rwyf wedi llunio Cod Ymarfer Drafft ar gyfer Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018, a cafodd

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

ei hanfon am gydsyniad Gweinidogion Cymru fis Rhagfyr 2022. Byddaf yn rhoi gwybod i chi drwy hysbysiad ysgrifenedig pan fydd y cod ymarfer wedi derbyn cydsyniad. Bydd yn ddogfen statudol ar ôl iddo dderbyn cydsyniad.

Yn unol ag adran 54(2) y Mesur, gallwch herio'r gofyniad i gydymffurfio â safon drwy wneud cais i'r Comisiynydd. Dylid cyfeirio at [Weithdrefn Herio ac Apelio Comisiynydd y Gymraeg](#) am rhagor o wybodaeth.

Pe byddai gennych unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys eich hysbysiad cydymffurfio, neu'n dymuno trefnu cyfarfod i drafod ymhellach, mae croeso i chi gysylltu â'ch swyddogion cyswllt Catrin Jenkins neu Siân Sykes ar 0345 60 33 221 neu drwy post@cyg-wlc.cymru.

Hoffwn ddiolch i chi a'ch swyddogion am eich cydweithrediad yn y broses hyd yma.

Yr eiddoch yn gywir,

Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg



Alyson Thomas
Chief Executive
The Citizen Voice Body for Health and Social Care, Wales ('Llais')

By e-mail: alyson.thomas@llaiscymru.org

29/09/2023

Dear Chief Executive

WELSH LANGUAGE STANDARDS – COMPLIANCE NOTICE

In accordance with section 44 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011, I attach your organisation's compliance notice.

The compliance notice notes which standards within the [Welsh Language Standards \(No. 7\) 2018 Regulations](#) you have to comply with and by when. A copy of the notice will be published on my website.

As you will be aware, a consultation period was carried out on the draft compliance notice between 13 June 2023 and 18 August 2023. The changes made to the compliance notice following the consultation are outlined in appendix 1, along with some additional notes to further explain the requirements.

A compliance notice is in force from the day when the Commissioner gives the notice, which is 29 September 2023. A compliance notice remains in force unless, and until, it is revoked. You will be required to comply with Welsh Language Standards from 1 April 2024.

If there are any changes in the organisation's circumstances from the day in which the notice comes into force, for example, if the organisation commences or ceases to deliver a service that comes within the remit of the standards, you should notify the Commissioner at once.

You should refer to the Welsh Language Standards (No. 7) 2018 Regulations by clicking on the link http://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/441/pdfs/wsi_20180441_mi.pdf in order to see full definitions and interpretations of the standards in which you are required to

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

comply with. I have produced a Draft Code of Practice for the Welsh Language Standards (No. 7) Regulations 2018, which was sent for the consent of Welsh Ministers in December 2022. I will let you know by written notice when the code of practice has received consent. It will be a statutory document thereafter.

In accordance with section 54(2) of the Measure, you may challenge the requirement to comply with a standard by application to the Commissioner. You should refer to the [Welsh Language Commissioner's Challenges and Appeals Procedure](#) for further information.

If you have any queries regarding the content of your compliance notice, or wish to arrange a meeting to discuss further, you are welcome to contact your contact officers, Catrin Jenkins or Siân Sykes on 0345 60 33 221 or post@cyg-wlc.wales.

I would like to thank you and your officers for your cooperation during the process so far.

Yours sincerely,

Efa Gruffudd Jones
Welsh Language Commissioner